

CWYMPLANIAD HOFRENNYDD CHINOOK



Y ddelwedd a ddarparwyd gan teuluoedd galarus

Ar 2 Mehefin 1994, cwymplaniodd hofrennydd Chinook yr Awyrlu Brenhinol ar Benrhyn Kintyre, gan ladd y teithwyr a'r criw i gyd – sef cyfanswm o 29 o bobl. Yn eu plith roedd 25 o arbenigwyr cuddwybodaeth Prydain o M15, Heddlu Brenhinol Ulster a'r Fyddin Brydeinig, ynghyd â phedwar aelod o'r Lluoedd Arbennig.

Mae cryn ddadlau wedi bod ynglŷn ag amgylchiadau'r cwymplaniad. Roedd canlyniadau ymchwiliad cychwynnol a gynhaliwyd gan y Lluoedd Arfog Brenhinol ym 1995 yn amhendant. Eto i gyd, fe wnaeth dau uwch-farsial o'r Awyrlu Brenhinol benderfynu rhoi'r bai ar y peilotiaid am esgeuluster difrifol, er nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth ychwanegol. Roedd ymchwiliad i'r ddamwain angheuol, a gynhaliwyd yn yr Alban ym 1996, yn ogystal â nifer o ymchwiliadau seneddol a gynhaliwyd yn ddiweddarach, yn anghytuno â hyn. Roeddynt hwy'n awgrymu mai problemau technegol gyda'r hofrennydd Chinook a achosodd y ddamwain.

Mewn adolygiad a gynhaliwyd dan arweiniad barnwr yn 2011, cafodd enwau'r peilotiaid eu clirio ac ymddiheurwyd i'w teuluoedd. Eto i gyd, nid ymchwiliwyd ymhellach i'r amgylchiadau.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
chinookjusticecampaign.co.uk

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Mewn rhaglen ddogfen gan y BBC yn 2024, datgelwyd bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi selio ffeiliau'n ymwneud â'r cwymplaniad am 100 mlynedd, tan 2094.

Mae dogfennau a luniwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac a ryddhawyd heb awdurdod, yn profi bod y Weinyddiaeth yn gwybod nad oedd yr hofrennydd yn ddiogel i'w hedfan. Ddwyllydd cyn y cwymplaniad, roedd adroddiad mewnol wedi crybwyll llu o bryderon ynglŷn â "methiannau systemig" yn ymwneud â hofrennyddion Chinook. Y diwrnod cyn y cwymplaniad, roedd peilotiaid prawf a pheirianwyr wedi dweud bod yr hofrennydd yn "wirioneddol beryglus".

Yn ogystal â gofyn am gynnal ymchwiliad cyhoeddus dan arweiniad barnwr, mae'r teuluoedd yn gofyn am ryddhau'r dogfennau a seliwyd. Maent wedi dechrau cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

PAM BOD ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH?

"Mewn cynifer o achosion yn ymwneud â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, mae teuluoedd fel ein teuluoedd ni yn mynd trwy uffern. Fel y cyn-filwyr a ddioddefodd ymbelydredd, y bobl sy'n ymladd yn erbyn canser oherwydd mygdarthau hofrennyddion, a nifer o achosion eraill yn ymwneud â'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Caiff y gwirionedd ei guddio, caiff papurau eu rhoi o'r neilltu, rhoddir y lle blaenaf i anonestrwydd gan yr adran a adnabyddir bellach fel y Weinyddiaeth Dwyll"

Andy Tobias, mab y Lefftenant-Cyrnol John Tobias a laddwyd yn y drychineb